PECYN Y CONTRACTWR

# PECYN CYMORTH INSIWLEIDDIO WALIAU ALLANOL (IWA) A GWAITH CYSYLLTIEDIG

Pecyn C: Contractwyr | Rhan 2: Canllawiau ar gyfer Contractwyr

Cyfres Gwella Cartrefi

Caru • Love Ceredigion

Ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw golled, difrod neu ganlyniadau anfoddhaol sy'n codi yn sgil gweithredu unrhyw weithgareddau a geir o fewn y Pecyn Cymorth hwn. Nid yw'r defnydd o enwau perchnogol a masnachol o fewn y Pecyn Cymorth hwn yn golygu o angenrheidrwydd bod y cynnyrch yn cael ei gymeradwyo gan yr awduron.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, dosbarthu neu drosglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn ar unrhyw ffurf, na thrwy unrhyw ddull, gan gynnwys llungopïo, recordio neu ddulliau trydanol a mecanyddol eraill, heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan **Gyngor Sir Ceredigion**.

*Fersiwn 1.2 Medi 2016*

**Arweinwyr y Prosiect:** Graeme Lane a Leanne Bird

**Golygwyd gan:** Leanne Bird, Cyngor Sir Ceredigion

**Ysgrifennwyd gan:** Catharine Wüste, Green Man Ecology Ltd.

**Cyfraniadau gan:** Graeme Lane, Cyngor Sir Ceredigion, yr Ecolegydd llawrydd Tom McOwat, Willmott Dixon Energy Services Ltd, Barbara Owsianka, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Ian Thomas (gwirfoddolwr)

**Dyluniwyd gan**: InSynch

Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymgyngoreion**: Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod

**Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PG**

# Y PECYNNAU CYMORTH

## Pecyn A: Pecyn y Cleient

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer cleientiaid

## Pecyn B: Pecyn yr Ecolegydd

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Ecolegwyr

Rhan 3 – Cais am Drwydded Rhanddirymiad Rhagofalus

- *ffurflen gais*
- *templed MS*

## Pecyn C: Pecyn y Contractwr

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Contractwyr

Rhan 3 – Datganiad y dull lliniaru

Rhan 4 – Sgwrs y bocs tŵls

## Pecyn D: Pecyn Lliniaru

Rhan 1 – Ffurflen archwilio lliniaru eiddo

Rhan 2 – Enghraifft o ffurflen archwilio lliniaru wedi ei llanw

Rhan 3 – Catalog o ddulliau lliniaru a gwelliannau

Rhan 4 – Cais am wybodaeth gyhoeddus am ystlumod ac adar

Rhan 5 – Gwybodaeth am flychau ar gyfer rhywogaethau a bywyd gwyllt a warchodir ar gyfer perchnogion eiddo

# Y BROSES GYFAN

## CAM 1: Pennu'r risg i ystlumod ac adar sy'n magu

- Arolwg bwrdd gwaith gan gynnwys chwiliad y Ganolfan Cofnodion Lleol
- Arolwg ar droed gan ecolegydd cymwys i chwilio am arwyddion o ystlumod, a allai fod ystlumod yn bresennol, gan gynnwys mynedfeydd posib ac arwyddion o adar sy'n magu

Os nad oes DIM arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / a does dim tebygolrwydd bod ystlumod yn breswennol, gallwch fynd ymlaen â'r gwaith, gan ymgorffori'r gwelliannau ar gyfer yr eiddo dan sylw.

Os oes arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / mae'n bosibl bod ystlumod yn bresennol – ewch i gam 2.

## CAM 2: Cynllunio mesurau lliniaru

- Gwarchod rhag effeithio ar yr ystlumod drwy sicrhau bod yr holl fynedfeydd sydd ganddynt yn cael eu cadw, a thrwy beidio ag effeithio ar linell y to/y bondo
- Gwneud y gwaith y tu allan i dymor magu'r adar
- Darparu nythod newydd sy'n addas ar gyfer y rhywogaethau perthnasol

GELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / does dim angen ymestyn llinell y to / does dim angen bondo newydd

- — Dylech lunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
- — Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â'r datganiad dull ar gyfer yr eiddo dan sylw

NI ELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / mae angen ymestyn llinell y to / mae angen bondo newydd – ewch i gam 3.

## CAM 3: Arolwg presenoldeb / absenoldeb

- Os nad yw'n bosibl gwarchod rhag yr effeithiau posib, bydd angen cynnal arolygon presenoldeb/absenoldeb o'r ystlumod yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig.

Os NAD OES dim tystiolaeth o ystlumod

- — Bydd angen llunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
- — Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â datganiad dull yr eiddo dan sylw.

OS OES tystiolaeth o ystlumod. Dylech wneud cais am drwydded ystlumod penodol (rhanddirymiad) ar gyfer yr eiddo dan sylw, a gwneud y gwaith yn unol â'r datganiad dull (gan ymgorffori mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer adar) NEU peidiwch â gwneud y gwaith.

# CYNNWYS

1 CYFLWYNIAD ..... 1
1.1 Nod y ddogfen hon 1

2 CYSYLLTU AG ECOLEGYDD ..... 1
2.1 Pam mae angen cysylltu ag ecolegydd? **Error! Bookmark not defined.**
2.2 Pryd mae angen cysylltu ag ecolegydd **Error! Bookmark not defined.**
2.3 Sut mae dod o hyd i ecolegydd 2

3 AROLYGON O FYWYD GWYLLT ..... 2
3.1 Beth i'w ddisgwyl 2
3.2 Canlyniadau arolygon a mesurau lliniaru 4

4 CYSYLLTU Â DEILIAID TAI/LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG ..... 5
4.2 Pryderon ynghylch y blychau ystlumod ac adar **Error! Bookmark not defined.**

ATODIAD A: Y DULLIAU LLINIARU ..... 8

ATODIAD B: TREFN AROLWG YR ECOLEGYDD ..... **Error! Bookmark not defined.**

**FFIGURAU**

Ffigur C2- 1: Enghraifft o fesur lliniaru/Gwelliant i flwch ystlumod ..... 6
Ffigur C2- 2: Dewis y strategaeth liniaru ..... 8
Ffigur C2- 3: Strategaeth arolwg y rhywogaethau a warchodir ..... Error! Bookmark not defined.

**TABLAU**

Tabl C2-1: Arolygon ecolegol ar gyfer IWA ..... 3

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1Nod y ddogfen hon

1.1.1 Mae'r ddogfen yn cynnig arweiniad (nid rheolau) i gontractwyr sy'n gyfrifol am osod cynlluniau insiwleiddio waliau allanol (IWA) ar yr ystyriaethau isod:

- Pam mae angen ecolegydd?
- Sut mae cysylltu ag ecolegydd.
- Sut i osgoi niweidio rhywogaeth a warchodir (a thrwy hynny osgoi cyflawni trosedd yn erbyn bywyd gwyllt)
- How to avoid harm to protected species (and thereby avoid committing a wildlife offence).
- Dyw'r ddogfen ddim am ailadrodd dim o'r canllawiau sydd eisoes wedi eu cyhoeddi (er enghraifft, y canllawiau sy'n ymwneud ac arolygon ystlumod).

1.1.2 Mae cyfyngiadau amser ac adnoddau ar gynllun IWA (gweler y Cyflwyniad Cyffredinol). Mewn nifer o achosion, caniateir y lefel isaf o arolwg ecolegol (bwrdd gwaith, ar droed, ac archwiliad o ben y sgaffald) ar yr amod bod mesurau lliniaru parod yn cael eu rhoi ar waith pryd bynnag y deuir o hyd i nodweddion a allai gael eu defnyddio gan fywyd gwyllt, o dan ddarpariaethau'r Trwydded Rhanddirymiad (gweler Rhan 1 a Rhan 3 Pecyn yr Ecolegwyr). Mae'r strategaeth yn cymryd na fydd digon o amser nac adnoddau'n i gyflawni arolwg digonol i gadarnhau bod bywyd gwyllt yn defnyddio rhyw nodwedd neu'i gilydd, ac felly mae'n well arfer dull rhagofalus o liniaru.

1.1.3 Mewn rhai achosion, bydd angen arolwg cynhwysfawr a bydd angen strategaeth liniaru sydd wedi'i theilwra'n arbennig ar gyfer yr eiddo dan sylw (e.e. arolwg o'r ystlumod yn dod allan a'r posibilrwydd y galai fod angen trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (EPS) ar gyfer yr eiddo).

# 2 CYSYLLTU AG ECOLEGYDD

## 2.1 Pam mae angen cysylltu ag ecolegydd

2.1.1 Mae'n hanfodol cysylltu ag ecolegydd. Gallai cynllun IWA aflonyddu ar fannau gorffwys rhywogaethau a warchodir gan Ewrop (ystlumod) neu'u dinistrio a rhywogaethau a warchodir yn genedlaethol (adar sy'n nythu). Mae ystlumod a'u mannau gorffwys yn cael eu gwarchod. Mae'n drosedd aflonyddu ar ystlumod a dinistrio eu mannau gorffwys,. Caiff adar gwyllt eu gwarchod yn ystod y tymor nythu, ond gall cynllun IWA hefyd arwain at golli safleoedd nythu addas. Mae crynodeb o'r ddeddfwriaeth yn Rhan 1.

## 2.2 Pryd mae angen cysylltu ag ecolegydd

2.2.1 Dylech gysylltu ag ecolegydd cyn gynted â phosib. Bydd ecolegydd yn rhoi amcangyfrif o gost y gwaith i chi pan fydd y cwmnïau sy'n awyddus i gyflawni'r gwaith yn ymgeisio am gontractau.

2.2.2 Rhaid cynnal arolygon ecolegol unwaith y bydd y prosiect wedi dechrau fel y bydd modd mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â rhywogaethau a warchodir mewn da bryd.

## 2.3 Sut mae dod o hyd o i ecolegydd

2.3.1 **Awdurdodau lleol:** Mae gan nifer o awdurdodau lleol restrau o'r ecolegwyr sydd ar gael yn yr ardal. Gofynnwch i Ecolegydd neu Swyddog Bioamrywiaeth y Sir am restr o ymgynghorwyr. Mae cysylltu ag ecolegydd lleol yn fanteisiol oherwydd mae'r ymgynghorwyr hynny'n fwy tebygol o fod ar gael ar fyr rybudd (fel sydd ei angen yn aml), a byddan nhw'n gwybod am fywyd gwyllt yr ardal a bydd ganddyn nhw wybodaeth leol arall berthnasol yn ogystal. Bydd llai o gostau teithio hefyd.

2.3.2 **Cofrestrau proffesiynol:** Er nad yw nifer o'r ecolegwyr lleol sy'n gweithio yng Nghymru'n aelodau, fe allech chi ddod o hyd i ecolegydd ar gofrestr o ecolegwyr proffesiynol. Y ddwy gofrestr fwyaf yw:

- Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM)
- Sefydliad Rheolaeth ac Asesiadau Amgylcheddol (IEMA)

2.3.3 **Cyfryngau Cymdeithasol:** Mae nifer o ecolegwyr yn aelodau o rwydweithiau cymdeithasol proffesiynol.

2.3.4 Cyfrifoldeb y contractwr yw sicrhau cymwysterau/profiad yr ymgynghorydd ecolegol, gwneud yn siŵr bod yswiriant priodol ganddynt, a'u bod wedi cael hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol ar gyfer gweithio ar safle adeiladu (h.y. bod ganddynt gerdyn CSCS priodol). Os oes perygl o aflonyddu ar ystlumod, neu os oes angen trafod ystlumod, bydd angen i'r ecolegydd feddu ar y drwydded briodol. Felly, y peth gorau i'w wneud yw cyflogi ecolegydd ystlumod trwyddedig fel na fydd dim oedi mewn sefyllfa o'r fath. Er mwyn sicrhau bod gan yr ecolegydd y cymwysterau addas, trowch at y canllaw 'Competence for Species Survey: Bats' CIEEM [1].

2.3.5 Mae'n bwysig hefyd ceisio dod o hyd i ecolegydd y gallech chi feithrin perthynas waith dda ag ef/hi ac ymddiried ynddo/ynddi.

# 3 AROLYGON BYWYD GWYLLT

## 3.1Beth i'w ddisgwyl

3.1.1 Bydd angen i'r ecolegydd gynnal arolygon fel y nodir yn Nhabl C2-1.

[1] http://www.cieem.net/data/files/Resource_Library/Technical_Guidance_Series/CSS/CSS_-_BATS_April_2013.pdf

3.1.2 Mae strategaeth yr arolwg ecolegol (a ddefnyddir gan yr ecolegydd) i'w gweld yn Atodiad A, ffigur C2-2

**Tabl C2-1: Arolygon ecolegol ar gyfer IWA.**

| | Arolwg | Manylion | Amseriad |
|---|---|---|---|
| 1* | Bwrdd Gwaith | • Bydd yr ecolegydd yn gofyn i'r ganolfan cofnodion lleol am gofnodion ystlumod ac adar<br>• Bydd yn rhoi gwybod i reolwr y safle am unrhyw eiddo sydd â hanes o ystlumod (os cyflwynwyd cofnodion ar gyfer yr eiddo hwnnw; nid yw'r ffaith nad oes dim gofnodion yn golygu nad oes yna rywogaeth a warchodir yn bresennol) | Ar ddechrau'r cynllun |
| 2* | Ar Droed | • Archwiliad allanol o'r holl eiddo sy'n rhan o'r cynllun<br>• I'w gynnal ar lefel y ddaear<br>• Heb amharu (h.y. o'r stryd, nid o dir yr eiddo)<br>• Y nod yw rhoi gwybod i reolwr y safle am bob eiddo sydd angen arolwg pellach mewn perthynas â rhywogaeth a warchodir | Ar ddechrau'r cynllun. |
| 3† | Archwilio gwagleoedd | • Yn ofynnol os dewch o hyd i dyllau/bylchau a allai arwain at wagle yn y to, a allai gael eu llanw yn sgil cynllun IWA<br>• Yn ofynnol os oes unrhyw waith yn cael ei wneud i'r to (e.e. insiwleiddio'r lofft, ailosod llechi, ymestyn llinell y to) | Ar ddechrau'r cynllun. |
| 4† | Arolwg o ystlumod yn dod allan † | • Gall yr awdurdod lleol ofyn am hwn (e.e. os oes angen caniatâd cynllunio).<br>• Gall fod angen hwn os oes hanes o ystlumod yn yr eiddo a bod angen gwybod a ydyn nhw'n dal yno. | Gellir ond ei gynnal yn ystod tymor gweithgar yr ystlumod (canol y gwanwyn – dechrau'r hydref. |
| 5^ | Trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (EPS) | • Os oes posibilrwydd bod clwydfan ystlumod yno, bydd angen gwneud cais am drwydded ragofalus. Bydd hyn yn cynnwys cais am drwydded (a fydd yn gosod y cyfrifoldeb ar reolwr y safle) a datganiad dull. | Ar gael cyn i'r gwaith dechrau |
| 6** | Archwiliad o ben y sgaffald | • Bydd angen i unrhyw nodweddion y gallai bywyd gwyllt eu defnyddio (e.e. tyllau rhwng y cerrig, bylchau tu ôl i'r estyll tywydd, tyllau yn | Unwaith y bydd y sgaffald yn ddiogel yn ei le. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | estyll y bondo, tyllau yn y bargod ac ati) gael eu harchwilio'n fanwl o ben y sgaffald, os na chynhaliwyd archwiliad gwagleoedd neu arolwg o'r ystlumod yn dod allan ar eu cyfer. Bydd archwiliad agos yn caniatáu i'r ecolegydd gadarnhau gwir natur y nodwedd a pha fath o fesurau lliniaru sydd eu hangen. | |
| 7†† | Archwiliad o'r Mesurau Lliniaru | • Bydd yr ecolegydd yn archwilio'r holl fesurau lliniaru o ben y sgaffald. | Cyn tynnu'r sgaffald. |
| 8 | Gwella bioamrywiaeth | • Bydd yr ecolegydd yn nodi unrhyw eiddo sy'n addas i dderbyn nodwedd gwella bioamrywiaeth (blwch ystlumod neu adar).<br>• **Sylwer:** nid mesur lliniaru yw nodwedd gwella bioamrywiaeth ac nid yw'n orfodol. Gall fod yn ofynnol os mai awdurdod lleol sy'n contractio. Gellir gosod y nodweddion ar unrhyw eiddo addas gyda chaniatâd y perchennog. | Cyn tynnu'r sgaffald. |

*angenrheidiol ar gyfer y cynllun IWA cyfan; †gall fod ei angen ar gyfer rhai o'r tai (bydd yr ecolegydd yn eich cynghori); **angenrheidiol ar gyfer unrhyw eiddo gyda thyllau a bylchau os na chynhaliwyd archwiliad gwagleoedd nac arolwg ymddangosiad ar eu cyfer; ††angenrheidiol ar gyfer unrhyw eiddo gyda mesurau lliniaru ar gyfer ystlumod a/neu adar; ^angenrheidiol os canfyddir unrhyw arwyddion o bresenoldeb ystlumod

## 3.2 Canlyniadau arolygon a mesurau lliniaru

3.2.1 Rhaid cadw neu ailosod unrhyw nodweddion adeileddol y gallai bywyd gwylltu eu defnyddio (fel y nodir gan yr ecolegydd).

3.2.2 Bydd yr ecolegydd yn cytuno ynghylch strategaeth liniaru briodol ar gyfer yr eiddo gyda'r contractwr.

3.2.3 Mae'r diagram sydd yn ffigur C2-3, Atodiad B, yn dangos sut mae dewis y mesurau lliniaru priodol (ar ôl cwblhau'r holl arolygon ecolegol).

3.2.4 Gweler y Dulliau Lliniaru sydd yn y pecyn hwn. Dyma'r dulliau sy'n cael eu defnyddio hefyd fel rhan o drwydded EPS ragofalus.

# 4 YMGYSYLLTU Â DEILIAID TAI / LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG (LCC)

4.1.1 Mae darparu ar gyfer ystlumod ac adar mewn gwaith ar dai'n gallu bod yn fater dadleuol. Mae'n bosibl y bydd gan ddeiliaid tai/LCC eu rhagdybiaethau eu hunain ynghylch yr effeithiau posib.

4.1.2 Mae'n hanfodol mynd i siarad â deiliaid y tai/LCC yn gynnar yn y broses. Bydd angen trafod y mesurau lliniaru ecolegol pan fyddwch chi'n cwrdd â deiliaid tai/LCC am y tro cyntaf, neu pan fyddan nhw'n cwrdd â'r contractwr am y tro cyntaf.

4.1.3 Ar adeg gofyn am gydsyniad ar gyfer cynllun IWA, bydd angen sicrhau bod deiliaid y tai/LCC yn ymwybodol y gallai fod angen cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau amgylcheddol fel rhan o'r cynllun ar eu heiddo, a bydd angen gofyn caniatâd ysgrifenedig ar gyfer hyn bryd hynny.

4.1.4 Os bydd deiliaid tai'n gwrthod, efallai y bydd angen cynnal arolygon ecolegol (gan ddibynnu ar ganlyniadau'r arolwg ar droed) i benderfynu a yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio gan ystlumod ac adar, a gall hynny arwain at yr angen am fesurau lliniaru a gwelliannau beth bynnag. Os bydd deiliaid tai'n gwrthod yn llwyr, neu os nad oes modd cynnal arolygon digonol oherwydd cyfyngiadau amser, ac os yw'n bosibl bod ystlumod yn bresennol, peidiwch â gwneud gwaith IWA ar yr eiddo a pheidiwch â'u cynnwys yn y cynllun.

4.1.5 Heb y trafodaethau yma, a heb y caniatâd hwn o'r cychwyn cyntaf, mae problemau'n gallu codi'n nes ymlaen, gan achosi oedi ac fe allai olygu na ellir cyflawni'r cynllun.

4.1.6 Yn ogystal, ni fyddai'n bosibl cael Trwydded Rhanddirymiad EPS oherwydd fod deiliaid tai/LCC yn gwrthod rhoi caniatâd ar gyfer y gwaith yn unol â'r adroddiad ecolegol (ac felly'r datganiad dull).

4.1.7 Enw'r contractwr sydd ar y drwydded a'r contractwr a fyddai'n cyflawni trosedd trwy dorri amodau'r drwydded. Dyw'r holl welliannau a'r mesurau lliniaru ar gyfer adar ddim wedi'u cynnwys yn y drwydded hon, ond byddant yn ofynnol o ran cyflawni dyletswyddau LlC a'r Awdurdod Lleol (gweler Pecyn A Rhan 2: Canllawiau i Gleientiaid).

## 4.2 Pryderon am flychau ystlumod ac adar

4.2.1 **Mae gwaith cynnal a chadw arnyn nhw** - dyw hyn ddim yn wir, os dewiswch chi flychau addas ar gyfer yr adar a bod yr adar yn eu defnyddio, does dim gwaith cynnal a chadw.

4.2.2 **Byddant yn creu budreddi** - peidiwch â gosod blychau ystlumod ac adar uwchlaw drysau neu ffenestri lle gallant achosi anghyfleustra.


4.2.3 **Bydd y perchnogion yn methu â chael caniatâd cynllunio yn y dyfodol** - dyw hyn ddim yn wir. Pur anaml y bydd ystlumod yn arwain at wrthod caniatâd cynllunio, os yw'r arolygon priodol wedi'u cynnal a bod mesurau lliniaru wedi'u hystyried. Hefyd mae'n haws lliniaru'r effaith os bydd ystlumod neu adar yn defnyddio blwch yn hytrach na'r tŷ ei hun am fod lleoliad yr ystlumod yn hysbys, ac mae modd symud blwch ar yr adeg briodol o'r flwyddyn a'i osod ar yr estyniad newydd (er enghraifft).

4.2.4 **Maen nhw'n hyll/salw** – mae nifer o flychau ystlumod yn cael eu gosod yn y cladin, heb ddim ond hollt yn y golwg, sy'n llai na fent awyru (gweler Ffigur C2-1).



**Figure C2- 1: Ffigur C2- 2:** Enghraifft o flwch ystlumod fel mesur lliniaru/gwelliant

# APPENDIX A: ECOLOGIST SURVEY METHODS





**Ffigur C2- 3:** Strategaeth arolwg y rhwyogaethau a warchodir

*Os oes cofnodion o'r ystlumod, RHAID cadarnhau nad oes mynedfa ar gyfer yr ystlumod trwy chwilio manwl ac archwilio'r gwagleoedd lle bo angen, neu fel arall bydd angen cynnal arolygon o'r ystlumod yn dod allan/yn dychwelyd.

**Os nad yw'n bosibl cadw'r pwyntiau mynediad neu mae bwriad i wneud gwaith ar y to ond does dim mynediad i'r atig (i'w gadarnhau trwy archwiliad mewnol/endosgôp o'r sgaffald), byddai'n bosibl cynnig mesurau lliniaru addas yn unol â B2.2 fel rhan o'r datganiad dull a'r cais am drwydded ragofalus ac yna mae'n bosib y byddai'n bosibl gwarchod rhag gwneud mwy o waith arolygu.

# ATODIAD B: DULLIAU LLINIARU




**Ffigur C2-34:** Strategaeth dewis dulliau lliniaru